

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Rosehill, Bwrdd
Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 11 Gorffennaf 2024

Dyddiad cyhoeddi: 11 Hydref 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

| | | |
|----|--|----|
| 1. | Yr hyn a wnaethom | 5 |
| 2. | Crynodeb o'r arolygiad | 6 |
| 3. | Yr hyn a nodwyd gennym | 8 |
| | • Ansawdd Profiad y Claf | 8 |
| | • Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol | 12 |
| | • Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth | 15 |
| 4. | Y camau nesaf | 18 |
| | Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad | 19 |
| | Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith | 21 |
| | Atodiad C - Cynllun gwella..... | 23 |

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Rosehill, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 11 Gorffennaf 2024.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 45 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod y staff ym Mhractis Deintyddol Rosehill yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion.

Gwelsom y staff yn trin cleifion mewn ffordd gwrtais, gyfeillgar a phroffesiynol wyneb yn wyneb a thros y ffôn.

Dywedodd pob un o'r unigolion a gwblhaodd holiadur AGIC a roddodd eu barn fod y gwasanaeth yn 'dda iawn' neu'n 'dda. Ymhlith y sylwadau roedd y canlynol:

“Staff rhagorol, mae'n hawdd iawn cael apwyntiad, safon uchel o lendid.”

“Mae staff y dderbynfa yn hyfryd, yn gwenu wrth ein croesawu ac yn gwybod ein henwau - rhagorol.”

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhoi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ar waith
- Darparu rhagor o wybodaeth i gleifion er mwyn hyrwyddo eu hiechyd corfforol ac iechyd y geg.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Amgylchedd dymunol mewn cyflwr da
- Roedd trefniadau ar waith i gynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion
- Roedd addasiadau wedi'u gwneud er mwyn helpu pobl sy'n defnyddio cadair olwyn a chleifion ag anawsterau symudedd
- Roedd y gwasanaeth yn annog adborth gan gleifion, ac yn gweithredu arno.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y practis mewn cyflwr da ac yn drefnus. Roedd y deintyddfeydd yn cynnwys cyfarpar addas ac yn addas at y diben.

Roedd y staff yn dilyn gweithdrefnau clir i sicrhau bod offer deintyddol yn cael ei ddihalogi a'i sterileiddio. Roedd ystafell ar wahân yn cael ei defnyddio i ddihalogi, ac mae hyn yn arfer dda yn ein barn ni.

Roedd pob ardal yn ymddangos yn lân ac yn daclus ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cynnal ymarferion gwagio'r adeilad yn rheolaidd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y practis yn lân, yn cynnwys digon o gyfarpar, ac yn addas at y diben
- Roedd y cyfarpar clinigol yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol
- Roedd mesurau priodol ar waith i sicrhau arferion rheoli heintiau o safon uchel
- Roedd polisiau a gweithdrefnau ar waith i helpu i sicrhau gofal diogel ac effeithiol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir ar waith ym Mhractis Deintyddol Rosehill. Roedd perchnogion a rheolwr y practis yn dangos ymrwymiad i ddarparu gofal o safon uchel.

Roedd cofnodion y staff yn cael eu cynnal yn dda, a gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf yn unol â'r gofynion rheoliadol. Gwelsom dystiolaeth hefyd o gyfarfodydd staff ac arfarniadau rheolaidd.

Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau ar waith. Roedd y rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhoi polisi ar waith er mwyn sicrhau bod y safle yn addas at y diben
- Gwella'r broses o gofnodi cwynion er mwyn nodi themâu yn haws.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y tîm rheoli yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at wella'r gwasanaeth a ddarperir
- Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau ar waith
- Systemau a chofnodion cadarn ar gyfer recriwtio a chyflogi staff.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

“Mae'r staff bob amser yn ddymunol, ac yn gwneud i mi deimlo'n gyfforddus.”

“Mae'r staff bob amser yn rhagorol, yn barod iawn i helpu ac yn llawn cydymdeimlad!”

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Roedd amrywiaeth dda o wybodaeth ddefnyddiol i'r cleifion wedi'i harddangos ym mhob rhan o'r practis. Roedd peth gwybodaeth am iechyd ar gael, yn enwedig yn y deintyddfeydd. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y gellid darparu rhagor o wybodaeth yn yr ardaloedd aros i gleifion.

Rydym yn argymhell y dylid arddangos gwybodaeth ychwanegol yn hyrwyddo iechyd corfforol ac iechyd y geg yn yr ardaloedd aros i gleifion.

Roedd arwydd 'dim smygu' yn cael ei arddangos yn glir, a oedd yn dangos bod y practis yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynglŷn â mangreoedd di-fwg.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC a fynegodd farn fod y staff wedi esbonio iechyd y geg yn glir a'u bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i gynnal iechyd y geg da.

Gofal urddasol a pharchus

Roedd drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cadw ar gau yn ystod triniaethau, ac roedd cerddoriaeth yn cael ei chwarae yn ardal y dderbynfa, er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion. Roedd gwydr barugog neu fleinds wedi cael eu gosod ar y ffenestri allanol yn y deintyddfeydd er mwyn cynnal preifatrwydd.

Roedd prisiau triniaethau ar gyfer gofal y GIG a gofal preifat yn cael eu harddangos yn glir.

Roedd tystysgrifau cofrestru a gyhoeddwyd gan AGIC a chopïau o God Moeseg y Cyngor Deintyddol Cyffredinol i'w gweld yn Gymraeg ac yn Saesneg. Rodd tystysgrif Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr gyfredol hefyd yn cael ei harddangos.

Roedd enwau rhai aelodau o'r staff clinigol a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u cynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion. Gwnaethom gynghori y dylai enwau pob aelod o'r staff clinigol a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol fod ar gael i'r cleifion. Ymdriniwyd â'r mater hwn yn ystod yr arolygiad, a chafodd poster priodol ei arddangos yn yr ardal aros i gleifion.

Roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC a fynegodd farn yn 'cytuno'n gryf' bod y staff yn eu trin ag urddas a pharch.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion 10 claf, a wnaeth gadarnhau bod gwybodaeth adnabod a hanes meddygol priodol yn cael eu cofnodi.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC fod y staff wedi rhoi digon o wybodaeth iddynt ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael, ynghyd â'u risgiau a'u manteision.

Amserol

Gofal amserol

Dywedodd y staff wrthym fod system anfon neges ar unwaith ar waith i'r rhai a oedd yn gweithio yn y deintyddfeydd er mwyn rhoi gwybod i staff y dderbynfa am unrhyw oedi. Byddai'r cleifion wedyn yn cael gwybod am yr oedi ar lafar ac yn cael cynnig yr opsiwn i aildrefnu'r apwyntiad pe baent yn dymuno gwneud hynny.

Roedd oriau agor y practis i'w gweld yn glir ym mynedfa ôl y practis. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw wybodaeth am oriau agor na'r ffordd i gael triniaeth frys ym mlaen y practis. Datryswyd hyn yn ystod yr arolygiad, a chafodd poster priodol ei arddangos, a oedd yn cynnwys oriau agor y practis a'r rhifau ffôn i'w defnyddio y tu allan i oriau neu mewn argyfwng.

Nid oedd y practis yn defnyddio system trefnu apwyntiadau ar-lein, ond gallai cleifion drefnu apwyntiadau dros y ffôn neu wyneb yn wyneb.

Dywedodd y staff wrthym fod apwyntiadau brys ar gael yn ddyddiol a bod y practis yn cymryd rhan yng nghynllun Galw Iechyd Cymru er mwyn darparu apwyntiadau brys i gleifion heb eu cofrestru yn rheolaidd. Roedd staff y dderbynfa yn cynnwys

nyrsys deintyddol hyfforddedig ac roedd apwyntiadau brys yn cael eu blaenoriaethu yn seiliedig ar symptomau'r cleifion a'u hanghenion clinigol.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r rhai a gwblhaodd holiadur AGIC (40 o 45 o gleifion) ei bod naill ai'n 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Dywedodd y staff wrthym fod gwasanaethau cyfieithu ar gael iddynt drwy'r Bwrdd Iechyd Lleol, pan fo'u hangen ar gyfer cleifion nad ydynt yn siarad Saesneg.

Roedd y daflen wybodaeth i gleifion ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac roedd poster i'w weld a oedd yn hysbysu cleifion y gellid darparu gwasanaeth yn Gymraeg pe byddent yn trefnu ymlaen llaw. Fodd bynnag, nid oedd y staff yn ymwybodol o'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg.

Rydym yn argymhell bod y rheolwr cofrestredig yn gofyn am gyngor a chymorth gan y Bwrdd Iechyd ac yn rhoi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ar waith.

Hawliau a chydraddoldeb

Roedd Polisi Cydraddoldeb, Urddas a Hawliau Dynol ar waith yn y practis, a oedd yn cynnwys diffiniadau o nodweddion gwarchoddedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb ac yn ymdrin â hawliau cleifion a staff.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gwneud yn siŵr eu bod yn trin cleifion trawsryweddol ag urddas ac roedd posibl dewis yr opsiwn 'Mx' ar system y practis yn hytrach na theitl rhywedd-benodol. Gwnaethom argymhell y dylid cofnodi enwau a/neu ragenwau a ffefrir y cleifion hefyd.

Rydym yn argymhell y dylid ychwanegu nodiadau am enwau a rhagenwau a ffefrir at gofnodion y cleifion, lle y bo'n briodol.

Gwelsom fod darpariaeth wedi'i gwneud ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn a chleifion ag anawsterau symudedd, gan gynnwys handlenni cydio yn nhoiled y cleifion ar y llawr gwaelod. Roedd arwydd y tu allan i'r adeilad yn cyfarwyddo pobl sy'n defnyddio cadair olwyn i ddefnyddio'r drws hygyrch yng nghefn yr adeilad. Fodd bynnag, nid oedd yr arwydd hwn yn glir iawn o'r drws ffrynt. Ymdriniwyd â'r mater hwn yn ystod yr arolygiad, a chafodd arwydd priodol ei osod.

Dyweddod y staff wrthym fod 'byrddau pwyso' yn cael eu darparu i'r cleifion a oedd angen llofnodi dogfennau ond nad oeddent yn gallu cyrraedd desg y dderbynfa. Nid oedd system dolen sain ar gael. Roedd breichiau ar un o'r cadeiriau yn yr ystafell aros er mwyn helpu'r rhai ag anawsterau symudedd.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Gwelsom fod yr adeilad yn lân ac mewn cyflwr da, ac nad oedd unrhyw beryglon amlwg.

Gwnaethom edrych ar ddogfennau yn ymwneud â diogelwch tân a gwelsom fod asesiad risg tân priodol ar waith. Roedd cofnodion a oedd yn dangos bod y cyfarpar diogelwch tân wedi cael ei wirio a'i wasanaethu'n rheolaidd. Roedd arwyddion clir ar gyfer y llwybrau dianc ac roedd y diffoddwyr tân yn cael eu storio yn y ffordd gywir. Ni welsom dystiolaeth fod ymarferion tân wedi cael eu cynnal yn rheolaidd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod ymarferion gwagio'r adeilad yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion y staff a gwelsom nad oedd un aelod o'r staff wedi ymgymryd â'r hyfforddiant diogelwch tân diweddaraf. Ymdriniwyd â'r mater hwn yn ystod yr arolygiad, a chwblhaodd yr aelod o staff gwrs ar-lein.

Gwelsom fod polisi lechyd a Diogelwch ac asesiad risg priodol ar waith yn y practis. Roedd y practis mewn cyflwr da ac yn amlwg yn cael ei gynnal a'i gadw i safon dda. Fodd bynnag, nid oedd polisi ar waith ar gyfer sicrhau bod y safle yn addas at y diben.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau priodol ar waith er mwyn sicrhau bod y safle yn addas at y diben.

Roedd polisi cyfredol ar gyfer Cynllunio ar gyfer Trychinebau a Pharhad Busnes ar waith yn y practis. Roedd poster yn dangos manylion cyswllt mewn argyfwng yn cael ei arddangos.

Gwelsom dystiolaeth bod Profion Offer Cludadwy (PAT) wedi'u cynnal yn ystod y chwe mis diwethaf, ac roedd adroddiad cyfredol ar osodiadau trydanol ar gael.

Roedd cyfleusterau newid y gellir eu cloi ar gael i'r staff ynghyd ag ardal storio ar gyfer eitemau personol yn yr ystafell staff.

Roedd y toiled rhywedd cymysg i gleifion yn lân yr olwg, ac roedd yn cynnwys cyfleusterau golchi a sychu dwylo addas ac uned gwaredu eitemau mislif.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod arferion rheoli heintiau o safon dda ar waith. Roedd y rhain yn cynnwys polisiau a gweithdrefnau priodol, arweinydd rheoli heintiau dynodedig a threfniadau glanhau effeithiol.

Roedd pob un o'r cadeiriau ond un yn yr ystafell aros wedi'u gwneud o ddeunydd y gellid ei sychu'n lân ac roeddent mewn cyflwr da. Roedd un gadair wedi'i gorchuddio â ffabrig a all beri risg uwch o groesheintio.

Rydym yn argymhell y dylid naill ai gosod cadair arall yn lle'r un sydd wedi'i gorchuddio â ffabrig yn yr ystafell aros, ei gorchuddio â deunydd arall neu ymdrin â hi fel eitem benodol ar yr amserlen lanhau.

Roedd ystafell ddynodedig yn y practis ar gyfer dihalogi a sterileiddio offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru WHTM 01-05. Gwelsom fod y gweithdrefnau ar gyfer prosesu, dihalogi a sterileiddio yn briodol ac wedi'u deall yn dda.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC a fynegodd farn fod y practis yn 'lân iawn' neu'n 'eithaf glân' a bod mesurau atal a rheoli heintiau amlwg ar waith.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod trefniadau priodol a diogel ar waith yn y practis ar gyfer rheoli meddyginiaethau, wedi'u hategu gan bolisi Rheoli Meddyginiaethau.

Gwnaethom ystyried y trefniadau a'r cyfarpar a oedd ar waith i ddelio ag argyfyngau meddygol. Nodwyd gennym fod y trefniadau hyn yn foddhaol a bod yr holl eitemau gofynnol ar gael ac yn gyfredol, a bod cofnodion priodol yn cael eu cadw.

Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff a gwelsom dystiolaeth fod y staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar adfywio cardiopwlmonaidd (CPR).

Diogelu plant ac oedolion

Gwelsom fod polisiau a gweithdrefnau diogelu ar waith. Roedd siartiau llif yn cael eu harddangos ac ar gael i bob aelod o'r staff ac roedd arweinydd diogelu dynodedig ar waith. Nid oedd y siartiau llif hyn yn cyfeirio at Weithdrefnau Diogelu Cenedlaethol Cymru Gyfan.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o weithdrefnau diogelu cenedlaethol Cymru Gyfan.

Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff a gwelsom fod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Nodwyd gennym fod y cyfarpar clinigol yn y practis yn ddiogel, mewn cyflwr da ac yn addas at y diben.

Gwelsom fod stocrestr o gyfarpar pelydr-X, cofnodion cynnal a chadw a rheolau lleol ar waith yn y practis. Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff a gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol).

Effeithiol

Gofal effeithiol

Gwelsom fod trefniadau diogel ar waith yn y practis ar gyfer derbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Esboniodd y staff sut y byddent yn dod o hyd i ganllawiau a chynghor proffesiynol ac yn eu dilyn lle byddai angen gwneud hynny.

Roedd y practis yn defnyddio rhestrau gwirio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwthiol er mwyn lleihau'r risg o dynnu'r dant anghywir.

Cofnodion cleifion

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw'n electronig ac yn unol â'r polisi Rheoli Cofnodion.

Gwnaethom edrych ar gofnodion 10 claf a gwelsom dystiolaeth o brosesau da iawn a chyson ar gyfer cofnodi gwybodaeth glinigol.

Effeithlon

Effeithlon

Roedd y safle a'r cyfleusterau yn briodol ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir. Dywedodd y staff wrthym fod y cleifion yr oedd angen gofal brys arnynt yn cael eu blaenoriaethu lle bo modd.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Roedd strwythurau rheoli clir ar waith, ac roedd y practis yn gweithredu o dan gyfarwyddyd y prif ddeintyddion, a oedd hefyd yn berchen ar y practis, a rheolwr y practis. Gwelsom ymrwymiad clir i ddarparu gwasanaeth o safon uchel a dull gweithredu cadarnhaol ar gyfer gwneud gwelliannau.

Gwelsom dystiolaeth fod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal, a bod y cofnodion yn cael eu dosbarthu a'u llofnodi er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf. Dywedwyd wrthym fod y staff yn cael arfarniadau rheolaidd a gwelsom dystiolaeth o hyn.

Gwelsom fod amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau ar waith a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer cyflogi staff. Gwelsom bolisi recriwtio, a oedd yn rhoi manylion am y broses recriwtio a'r gwiriadau a gynhelir ar ddarpar gyflogeion. Roedd rhestr wirio yn cael ei defnyddio, a oedd yn cynnwys prawf adnabod a gwiriadau drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion staff a gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, bod ganddynt yswiriant indemniad proffesiynol a'u bod wedi'u brechu'n briodol rhag Hepatitis B. Gwelsom hefyd fod gwiriadau priodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal.

Roedd y gydymffurfiaeth â gofynion hyfforddiant gorfodol yn dda. Fodd bynnag, nid oedd yn ymddangos bod systemau cadarn ar waith i olrhain a sicrhau cydymffurfiaeth. Gwnaethom argymhell y dylid defnyddio matrices hyfforddiant er mwyn sicrhau bod gofynion hyfforddiant pob aelod o'r staff yn cael eu nodi a'u monitro.

Rydym yn argymhell bod y rheolwr cofrestredig yn rhoi matrices hyfforddiant neu system debyg ar waith er mwyn sicrhau y caiff gofynion hyfforddiant pob aelod o'r staff eu nodi a'u bod yn gyfredol.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Dywedodd y staff wrthym fod y cleifion yn rhoi adborth ar lafar fel arfer. Roedd blwch awgrymiadau yn ardal y dderbynfa ac roedd rhai cleifion yn defnyddio llwyfannau ar-lein i roi adolygiadau. Roedd poster 'dywedoch chi, gwnaethom ni' yn yr ardal aros i ddangos bod camau gweithredu yn cael eu cymryd o ganlyniad i adborth.

Roedd gweithdrefn gwyno glir a chynhwysfawr ar waith. Roedd y weithdrefn hon wedi ei harddangos yn glir, roedd yn cynnwys manylion cyswllt, amserlenni ar gyfer ymateb a sut i uwchraddio'r mater os bydd angen. Roedd y weithdrefn yn cynnwys manylion cyswllt y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, AGIC a'r Ombwdsmon. Roedd yn cyfeirio at Gynghorau Iechyd Cymuned fel ffynhonnell eirioli. Fodd bynnag, mae LLAIS wedi cymryd lle y Cynghorau Iechyd Cymuned.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y weithdrefn gwyno yn cael ei diweddarau i gynnwys manylion am LLAIS yn hytrach na Chynghorau Iechyd Cymuned.

Dywedodd y staff wrthym fod cwynion llafar ac ysgrifenedig yn cael eu cofnodi a'u hadolygu'n rheolaidd, a bod unrhyw faterion a champau gweithredu yn cael eu trafod yn ystod cyfarfodydd tîm. Caiff cwynion llafar eu cofnodi yng nghofnodion cleifion unigol. Gwnaethom awgrymu y dylid cadw cofnodlyfr neu grynodedb ar wahân er mwyn sicrhau y byddai'n haws nodi unrhyw faterion neu themâu sy'n codi'n rheolaidd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cwynion llafar yn cael eu dogfennu mewn cofnodlyfr ac nid yng nghofnodion cleifion unigol yn unig.

Roedd polisi ar waith mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd a dywedodd y staff wrthym eu bod wedi cael hyfforddiant priodol yn hyn o beth.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Roedd y practis yn defnyddio systemau electronig i reoli cofnodion y cleifion, polisiau a gweithdrefnau a chofnodion hyfforddiant y staff.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom dystiolaeth bod amrywiaeth o archwiliadau clinigol wedi cael eu cynnal, fel archwiliadau radiograffeg ac archwiliadau ar gofnodion clinigol, rhagnodi gwrthfotigau a rhoi'r gorau i smygu. Roedd archwiliadau ar wastraff gofal iechyd, iechyd a diogelwch a mynediad i bobl anabl ar waith hefyd.

Dyweddodd y staff wrthym fod y practis yn defnyddio'r dull Gwella Ansawdd Gyda'n Gilydd ac adnoddau archwilio eraill yn seiliedig ar ei systemau electronig.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Dyweddodd y staff wrthym mai dros y ffôn neu drwy e-bost yr oedd y practis yn rhyngweithio â phartneriaid system fel arfer. Roedd yn defnyddio systemau electronig i atgyfeirio cleifion, ac i gael gafael ar fetrigau a'u monitro (system eDEN).

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|--|
| Roedd enwau rhai aelodau o'r staff clinigol a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u cynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion, ond nid pob un ohonynt. | Dylai enwau pob aelod o'r staff clinigol a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol fod ar gael i'r cleifion. | Cafodd hyn ei drafod â rheolwr y practis. | Cafodd poster priodol ei arddangos yn ardal aros y cleifion yn ystod yr arolygiad. |
| Nid oedd unrhyw wybodaeth am oriau agor na'r ffordd i gael triniaeth frys ym mynedfa flaen y practis. | Ni fyddai cleifion y mae angen triniaeth frys arnynt yn gwybod sut i gael gafaeth ar y gwasanaeth hwn yn hawdd. | Cafodd hyn ei drafod â rheolwr y practis. | Cafodd poster priodol a oedd yn cynnwys oriau agor a rhifau ffôn y practis ei arddangos yn ystod yr arolygiad. |
| Roedd arwydd y tu allan i'r adeilad yn cyfarwyddo pobl sy'n defnyddio | Mae'n bosibl na fyddai cleifion â phroblemau | Cafodd hyn ei drafod â rheolwr y practis. | Cafodd arwydd priodol ei osod yn ystod yr arolygiad. |

| | | | |
|---|--|---|---|
| cadair olwyn i ddefnyddio'r drws hygyrch yng nghefn yr adeilad. Fodd bynnag, nid oedd yr arwydd hwn yn glir iawn o'r drws ffrynt. | symudedd neu sy'n defnyddio cadair olwyn yn gwybod sut i fynd i mewn i'r adeilad. | | |
| Gwelsom nad oedd un aelod o'r staff wedi ymgymryd â'r hyfforddiant diogelwch tân diweddaraf. | Mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff ymgymryd â hyfforddiant priodol ar ddiogelwch tân. | Cafodd hyn ei drafod â rheolwr y practis a'r aelod o staff. | Ymdriniwyd â'r mater hwn yn ystod yr arolygiad, a chwblhaodd yr aelod o staff gwrs ar-lein. |

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Rosehill

Dyddiad yr arolygiad: 11 Gorffennaf 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| Risg/canfyddiad/mater | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|----------------------------|------------------|-----------------------------------|------------------|----------|
| 1. Ni nodwyd unrhyw faterion ynglŷn â gwelliannau yr oedd angen mynd i'r afael â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn | | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): DD/G

Teitl swydd: Dd/G

Dyddiad: Dd/G

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Rosehill

Dyddiad yr arolygiad: 11 Gorffennaf 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Risg/canfyddiad/mater | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen | |
|-----------------------|--|--|--|---|--|---|
| 1. | Roedd peth gwybodaeth am hybu iechyd ar gael ond yn yr ardaloedd clinigol yn bennaf. | Rydym yn argymhell y dylid arddangos gwybodaeth ychwanegol yn hybu iechyd corfforol ac iechyd y geg yn yr ardaloedd aros i gleifion. | Safonau Iechyd a Gofal - Safon 4.2 (Gwybodaeth Cleifion) | Cael gafael ar bosteri hyrwyddo a'u harddangos, gan gynnwys rhai ar fwyta'n iach, pwysau iach, llesiant, ymarfer corff, ymwybyddiaeth o alcohol ac ymlacio. | Kirsty Hughes, Rheolwr y Practis | Wedi'i gwblhau |
| 2. | Nid oedd y staff yn ymwybodol o'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. | Rydym yn argymhell bod y Rheolwr Cofrestredig yn gofyn am gyngor a chymorth gan y Bwrdd Iechyd ac yn rhoi'r 'Cynnig Rhagweithiol' | Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 | Fel tîm, rydym yn ymwybodol o'r "Cynnig Rhagweithiol" ar gyfer y Gymraeg ac fel y gwnaethom esbonio yn ystod yr | Y tîm cyfan a gaiff ei arwain gan Paul, Jeremy a Kirsty. | Sicrhau ymwybyddiaeth drwy gynnal hyfforddiant/cyfarfod practis ar unwaith. Byddwn yn myfyrio ar hyn ac yn ystyried y |

ar gyfer y Gymraeg ar waith.

arolygiad, roeddem eisoes wedi dechrau cofnodi dewis iaith y cleifion yn eu nodiadau clinigol ar ffurf nodyn 'naid' ar sgrin flaen ein meddalwedd. Mae pob arwydd, poster a gwybodaeth i gleifion ar gael yn Gymraeg ac roeddent eisoes ar gael yn Gymraeg ar adeg yr arolygiad. Mae'r ffaith bod aelodau o'r staff a oedd yn gyfforddus yn siarad Cymraeg wedi ein gadael wedi effeithio ar ein gallu i ddarparu mwy na chyfarchiad ar hyn o bryd. Rydym wedi cael gafael ar y pecyn "Mwy na Geiriau" gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi

mater fel tîm mewn cyfarfodydd yn y dyfodol. Mae'r staff yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael i feithrin eu sgiliau Cymraeg. Rydym yn ymdrechu i recriwtio staff rheng flaen sy'n siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf ac i annog y staff sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg sylfaenol i deimlo'n fwy hyderus wrth eu defnyddio a cheisio eu meithrin os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

| | | | | | | |
|----|--|--|---|--|-----------------------------|--------------------------|
| | | | | <p>bod yn ddefnyddiol iawn, yn enwedig o ran y ffordd y gall technoleg ein helpu i barhau drwy'r cyfnod hwn. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am yr hyfforddiant sydd ar gael er mwyn helpu'r staff presennol i wella eu gallu a'u hyder i gyfathrebu yn Gymraeg.</p> | | |
| 3. | <p>Gellid diweddarau prosesau i sicrhau bod cleifion trawsryweddol yn cael eu trin ag urddas a pharch.</p> | <p>Rydym yn argymhell y dylid cofnodi enwau a rhagenwau a ffefrir y cleifion lle y bo'n briodol.</p> | <p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 15 (1)</p> | <p>Mae hyn yn digwydd eisoes - mae nodyn 'naid' yn ymddangos ar gofnodion y cleifion os ydynt wedi datgan eu henw / rhagenw a ffefrir. Byddwn yn cysylltu â SOE i holi a ellir gwneud diwygiadau i dudalen manylion y claf yn hytrach na</p> | <p>Kirsty/Jeremy a Paul</p> | <p>Cwblhawyd yn syth</p> |

| | | | | | | |
|----|--|--|---|---|--------------------------------------|---|
| | | | | gorfod dibynnu ar nodyn 'naid'. | | |
| 4. | Ni welsom dystiolaeth fod ymarferion tân wedi cael eu cynnal yn rheolaidd. | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod ymarferion gwagio'r adeilad yn cael eu cynnal yn rheolaidd. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 22(4) | Caiff ymarferion tân eu hychwanegu at amserlen y cyfarfod staff bob chwarter neu yn gynt os bydd staff newydd neu unrhyw newidiadau | Kirsty Hughes Rheolwr y Practis | Wedi'i gwblhau ac wedi cynnal yr ymarfer tân cyntaf |
| 5. | Roedd y practis mewn cyflwr da ac yn amlwg yn cael ei gynnal a'i gadw i safon dda. Fodd bynnag, nid oedd polisi ar waith ar gyfer sicrhau bod y safle yn addas at y diben. | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod polisiâu a gweithdrefnau priodol ar waith er mwyn sicrhau bod y safle yn addas at y diben. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 8 (1)(c) | Rydym wedi llunio polisi cynnal a chadw'r adeilad. | Paul Jenkins Perchennog y practis | wedi'i gwblhau |
| 6. | Roedd un o'r cadeiriau yn yr ystafell aros wedi'i gorchuddio â ffabrig a all beri risg uwch o groesheintio. | Rydym yn argymhell y dylid naill ai gosod cadair arall yn lle'r un sydd wedi'i gorchuddio â ffabrig yn yr ystafell aros, ei gorchuddio â deunydd arall neu ymdrin â hi fel eitem | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 13(6)(b) | Rydym wedi llunio'r polisi a'i ychwanegu at y ffeil glanhau domestig. Byddwn yn sicrhau nad yw'r cadeiriau wedi'u gorchuddio â ffabrig pan fydd | Kirsty Hughes Rheolwr y Practis | wedi'i gwblhau |

| | | | | | | |
|----|---|---|--|--|------------------------------------|----------------|
| | | benodol ar yr amserlen lanhau. | | angen eu hadnewyddu neu eu hail-orchuddio. Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r polisi ychwanegol yn y cyfarfod staff nesaf. | | |
| 7. | Nid oedd y polisi diogelu yn cyfeirio at Weithdrefnau Diogelu Cenedlaethol Cymru Gyfan. | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o weithdrefnau diogelu cenedlaethol Cymru Gyfan. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 14(1)(a) | Newid y llenyddiaeth i gynnwys cyfeiriad gwefan Gweithdrefnau Diogelu Cenedlaethol Cymru Gyfan - trafod y gweithdrefnau yn y cyfarfod staff nesaf er mwyn gwneud yn siŵr bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol ohonynt. | Kirsty Hughes Rheolwr y Practis | wedi'i gwblhau |
| 8. | Nid oedd unrhyw system ar waith i olrhain a sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion hyfforddiant gorfodol. | Rydym yn argymhell bod y rheolwr cofrestredig yn rhoi matrices hyfforddiant neu system debyg ar waith er mwyn sicrhau y caiff gofynion hyfforddiant pob aelod | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 17(1) | Rheolwr y Practis i ychwanegu dyddiadau cwblhau hyfforddiant gorfodol neu ddyddiadau diweddarau hyfforddiant gorfodol | Kirsty Hughes | wedi'i gwblhau |

| | | | | | | |
|-----|--|--|---|---|---------------|------------------|
| | | o'r staff eu nodi a'u bod yn gyfredol. | | er mwyn i iComply anfon nodyn atgoffa fis ynghynt. | | |
| 9. | Roedd y weithdrefn gwyno yn cyfeirio at Gynghorau lechyd Cymuned fel ffynhonnell eirioli. Fodd bynnag, mae LLAIS wedi cymryd lle y Cynghorau lechyd Cymuned. | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y weithdrefn gwyno yn cael ei diweddarau i gynnwys manylion am LLAIS yn hytrach na Chynghorau lechyd Cymuned. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 21(1) | Newid y llenyddiaeth a'r polisi - dileu manylion y Cynghorau lechyd Cymuned ac ychwanegu manylion cyswllt LLAIS | Kirsty Hughes | wedi'i gwblhau |
| 10. | Caiff cwynion llafar eu cofnodi yng nghofnodion cleifion unigol. Dylid cadw cofnodlyfr neu grynodedb ar wahân er mwyn sicrhau y byddai'n haws nodi unrhyw faterion neu themâu sy'n codi'n rheolaidd. | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cwynion llafar yn cael eu dogfennu mewn cofnodlyfr ac nid yng nghofnodion cleifion unigol yn unig. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 21(5) | Mae'n bosibl bod camddealltwriaeth yma. Caiff yr holl gwynion eu cofnodi yn y ffeil gwynion a'u hadolygu'n flynyddol. At hynny, cânt eu cofnodi ar gofnodion cleifion unigol. Mae eich adroddiad yn nodi mai dim ond yn nodiadau'r cleifion roeddent yn cael eu cofnodi. | Kirsty Hughes | Eisoos ar waith. |

Caiff ffurflen
digwyddiadau ei
chwblhau ar gyfer
 unrhyw gwynion.

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Kirsty Hughes

Swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 19 Awst 2024